| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 05 Mehefin 2019 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Awdur yr Adroddiad: | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| Teitl: | Archwiliad Mewnol o Gytundebau Adran 106 |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
   Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion ar adroddiad diweddar yr Adain Archwilio Mewnol ar Gytundebau Adran 106 a dderbyniodd raddfa Sicrwydd 'Isel'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?
   Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno y bydd yn derbyn ac yn trafod pob adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol sy'n derbyn graddfa Sicrwydd 'Isel' fel eu bod yn gallu trafod y canlyniad a derbyn sicrwydd y gwneir gwelliannau.

3. Beth yw'r Argymhellion?
   Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

4. Manylion yr adroddiad
   Mae Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn berthnasol i drefniadau rheoli'r datblygiad neu ddefnydd o dir. Cafodd y broses Adran 106 ei ddechrau drwy'r tîm Cynllunio gyda chyfranogiad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn gorffen gydag adrannau eraill yn y Cyngor e.e. Gwasanaethau Addysg. Mae cytundebau o dan Adran 106 yn rhwymo mewn cyfraith ac mae angen i ddarpariaethau gael eu gwneud ar gost y perchennog ar gyfer tai fforddiadwy a/neu gyfraniadau ariannol tuag at: dai fforddiadwy, addysg, mannau agored; yn gysylltiedig â rhoi caniatâd i ddatblygu unrhyw faint neu fath. Mae'r Cyngor yn defnyddio dau fath o gytundebau, fel y nodir isod: -

   - Cytundebau Adran 106 - lle mae'r Cyngor a'r datblygwr/perchennog tir yn dod i gytundeb.
   - Ymgymeriadau Unochrog – lle mae ymrwymiad gan y datblygwr/perchennog tir yn unig.

   Gwnaed cais am yr adolygiad gan yr uwch reolwyr a rhoddwyd ffocws ar y meysydd canlynol o'r rhwymedigaeth gynllunio Adran 106: Polisi a chanllawiau, trafodaethau, defnydd o ymgymeriadau unochrog, monitro a gorfodi, a chofnodi a phrosesu.

   Er bod nifer o brosesau da mewn lle ar gyfer rhai elfennau o'r broses Adran 106, mae ein hadolygiad yn dod i'r casgliad bod nifer o wendidau sylweddol sydd angen mynd i'r afael â nhw. Gan ddefnyddio dadansoddiad o wraidd y broblem, amlygwn gyfanswm o bedwar o faterion risg, a gaiff eu crynhoi isod:

   - Yr angen i sefydlu fframwaith clir ar gyfer y broses Adran 106 trosfwaol

- Diffyg cofrestr ganolog i gofnodi Adrannau 106 fel ei fod yn hygyrch i holl bartïon perthnasol.
- Nid oedd y manylion a gipiwyd yn erbyn Adran 106 yn gyfredol ac felly'n dangos rhai anghywirdebau.
- Diffyg cadernid neu drefniadau addas o fewn rhai timoedd i sicrhau dilyniant y broses Adran 106.

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?
Amherthnasol - nid oes penderfyniad ar gyfer newid yn gysylltiedig gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?
Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau. Bydd yr Adran Archwilio Mewnol yn dilyn trywydd y camau gweithredu cytunedig er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni er mwyn lleihau'r risgiau a nodwyd. Gall y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ofyn am adroddiadau diweddaru er mwyn monitro cynnydd gyda gweithrediad y cynllun gweithredu gwella.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.